

Cyngor Cymuned Llanelian (333)

Cofnodion cyfarfod Ebrill 13, 2021 a gynhaliwyd drwy gynhadledd fideo am 7yh.

Presennol: Ian Evans, Dafydd Griffiths, Glenys Jones, Gordon Hayes, Carol Whitaker, Elfyn Hughes, John Griffiths, Carli Evans Thau (Clerc)

Ymddiheuriadau: Hefina Williams, Thomas Jones, Alan Williams

1 Croeso

Cadeirwyd y cyfarfod gan Ian Evans a bu croesawu pawb yn bresennol.

2 Datgan Diddordeb

Dafydd Griffiths – Cais Cynllunio Cae Ffynnon

3 Cofnodion y Cyfarfod Diwethaf

Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfod 9/3/2021. Cynnig Gordon Hayes, eilio John Griffiths.

4 Materion yn Codi o'r Cofnodion

Nododd y clerc ei bod wedi anfon dogfen i'r aelodau cyn y cyfarfod gydag unrhyw ddiweddariadau.

4.1 Sbwriel/Biniau – cafwyd ymateb gan yr adran wastraff yn cadarnhau mai yr un polisi oedd yn weithredol ar draws y sir, ond eu bod yn fodlon edrych ar achosion unigol os oedd angen tynnu sylw.

4.2 Priffyrdd – nodwyd bod arwyddion 20mya wedi ymddangos pob pen i'r pentref erbyn hyn (ond dim byd yn Nebo nac wrth yr Ysgol). Cadarnhaodd y clerc ei bod wedi cysylltu a'r adran er mwyn ail-afael ar y trafodaethau i wella diogelwch ffordd yn y pentref, ac wedi gofyn eto i'r arwydd Lon Lletroed gael ei gywiro a'i symud.

Trafodwyd y posibilrwydd o blant yr ysgol yn dylunio arwyddion 20mya a diogelwch ffordd i'w arddangos yn y pentref. Y clerc i wirio gyda CSYM os fyddai hyn yn bosib a gofyn am amserlen pa bryd fyddai gweddill y gwaith wedi ei gwblhau.

CET

4.3 Hysbysfwrdd – trafodwyd y posibilrwydd o brynu hysbysfwrdd o'r un deunydd a'r meinciau a photoai blodau. Cytuno yn unfrydol i'r clerc edrych ar maint a chostau beth sydd ar gael.

CET

4.4 Llwybr Maes Llwyfo – y clerc i anfon y manylion cyswllt ymlaen i Glenys Jones ar gyfer contractwyr posib.

CET
GJ

5 Diweddariadau

5.1 **Caeau Chwarae** – nodwyd bod y ffens yng Nghae Lon Tyddyn Waen angen sylw yn y pen pellaf. Y clerc i'w asesu ac adrodd yn ol. Nodwyd bod achos o graffiti ym Maes Llwyfo a bod yr heddlu yn ymwylbodol.

CET

5.2 **Llithrfa** – ffurflenni cais ar wefan y cyngor, ceisiadau yn dechrau dod i fewn. Bydd y postyn yn ei le canol mis Mai.

5.3 **Mynwent** – dim diweddariad, mae'r gwaith yn parhau.

5.4 **Cyllid a Pholisi** – gwybodaeth am ac anghenion yr archwiliad wedi cyrraedd erbyn hyn, y clerc wrthi'r paratoi'r wybodaeth berthnasol.

CET

- 5.5 Cronfa Ty Moel Isaf (1717-1985)** – nodwyd bod y pwyllgor newydd gwrdd.
- 5.6 Llwybrau** – nid yw'r pwyllgor wedi cwrdd. Cytuno cadarnhau dyddiad yn fuan er mwyn blaenoriaethu gwaith.
- 5.7 Pwyllgorau Allannol** –
Cafwyd adroddiad gan Dafydd Griffiths drwy ebost yn dilyn cyfarfod prosiect STEP.
Cafwyd grynodedb gan Ian Evans yn dilyn cyfarfod pwyllgor ardal Un Llais Cymru.

6 Cynllunio

- 6.1 Ceisiadau** – bu un cais i'w trafod:
Cae Ffynnon FPL/2021/62 – wedi trafod yn fanwl cytuno datgan pryderon ond nid CET yn gwrthwynebu'r datblygiad ar sail maint y datblygiad, lleoliad y datblygiad a'r angen am amodau ar gyfer defnydd storfa ac nid gweithdy (swm i drigolion cyfagos). Cynnig Glenys Jones, eilio John Griffiths.
- 6.2 Penderfyniadau** – cafwyd wybod am benderfyniad CSYM fel a ganlyn.
Gwelfryn, Penysarn HHP/2021/28 - caniatad
- 6.3 Gorfodaeth** – ni fu diweddariad am byllau Llys Dulas na'r sialets. Nododd Dafydd DG Griffiths ei fod wedi cael gwybodaeth gan yr adran gynllunio am dyllu at ddefnydd, cytuno iddo anfon yr ebost at yr aelodau er gwybodaeth.

Bu nodi bod carafan Gadfa Newydd wedi ei hysbysebu ar gyfryngau cymdeithasol ar gyfer llety gwyliau. Y clerch i gysylltu a'r adran gynllunio i dynnu sylw gan fod hyn CET yn groes i'r amodau cynllunio. Gofynnwyd am gadarnhad pa gamau fydd CSYM yn eu cymryd, ac os nad am weithredu, y rhesymau pam.

7 Materion Ariannol

- 7.1 Taliadau** - Cymeradwywyd y taliadau canlynol –
£35.03 Huws Gray (paent bocs BT)
£15.00 G Parry (planhygion)
£1236.00 NBB (byrddau picnic)
£301.77 Cyflog
£211.00 Aelodaeth Un Llais Cymru
£205.28 Costau Clerch Ionawr – Mawrth
- 7.2 Ceisiadau am Arian** – Dim
- 7.3 Adroddiad Chwarterol** – cadarnhawyd bod yr adroddiad a'r daenlen diwedd blwyddyn wedi ei anfon i'r aelodau cyn y cyfarfod. Ni fu cwestiynnau yn codi a bu diolch i'r clerch am ei gwaith.

8 Iechyd a Diogelwch

Dim

9 Gwefan

Cadarnhawyd bod yr adroddiad wedo eo gylchlythyru i'r aelodau cyn y cyfarfod. Bu CET cymeradwyo'r datganiad mynediad gydag un newid '*we aim to respond to your request as soon as practicable*'. Y clerch i gadarnhau a threfnu cyfieithu'r datganiad.

Trafodwyd cais am gael copiau Saesneg o'r cofnodion ar y wefan. Nodwyd nad CET oedd y cyngor yn paratoi cofnodion Saesneg ar hyn o bryd. Y clerch i gysylltu ag Un Llais Cymru am ganllaw gan nad yw'r cyngor yn paratoi cofnodion yn Saesneg.

10 Sedd Wag

Bu'r clerc gadarnhau bod yr ail rybydd bellach wedi ei arddangos a' anfon at yr aelodau er gwybodaeth. Mae angen i unrhyw un sydd a diddordeb gysylltu a'r clerc drwy ebost erbyn 26/4/2021.

11 Gohebiaeth

Cadarnhaodd y clerc bod unrhyw ohebiaeth wedi ei anfon i'r aelodau drwy ebost wrth ei dderbyn.

12 Unrhyw fater ar gyfer agenda'r cyfarfod nesaf

12.1 Nodwyd bod cwynion am ddwr yn rhedeg i lawr Lon Gadfa o'r gyffordd. John JG Griffiths i gysylltu a pherchennog y ty.

12.2 Gofynnwyd os oedd y Cyngor am drefnu unhryw ddigwyddiad i gydnabod 100 mlynedd ers dadorchuddio'r gofeb (2/11/1921). Cytuno cynnwys yn eitem ar agenda'r cyfarfod nesaf. Ian Evans i gysylltu a'r cyfreithiwr fel bod diweddariad INE cadarn erbyn y cyfarfod.

12.3 Bu cofnodi diolch y Cyngor i Mrs Mair Jefferies am ei haelioni ac am gyfrannu gwerth £100 o fylbiau cennin pedr i'w plannu wrth ddod i fewn i'r pentref (pob ochr).

12.4 Cytuno bod angen cadarnhau trefniadau etholiad gyda CSYM ynglyn a defnydd y TEH neuadd. Nid mater i'r cyngor cymuned yw hwn

13 Dyddiad y Cyfarfod Nesaf

Bydd cyfarfod nesaf y Cyngor i'w gynnal nos Fawrth Mai 11, 2021 am 7 o'r gloch.

Bu'r cyfarfod orffen am 8 o'r gloch

**Arwyddwyd
Ian Evans
Cadeirydd**

CET4/2021